

CVSC

Cymorth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy

Adroddiad Effaith

2019 - 2020

CVSC

www.cvsc.org.uk

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

NOD ANSAWDD PQASSO QUALITY MARK lefel | level 1

We are a Living Wage Employer

Registered with FUNDRAISING REGULATOR

CYBER ESSENTIALS

/conwyvol

/conwyvol

/conwyvolunteering

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd a'r Prif Swyddog.....3

Y Pedair Colofn.....4

Ymgysylltu a Dylanwadu.....5

Rhwydwaith Iechyd a Lles.....6

Llywodraethu Da.....7

Gwirfoddoli.....8

Cyllid Cynaliadwy.....10

Crynodeb Ariannol 2019/2020.....12

Cymorth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy
7 Ffordd Rhiw, Bae Colwyn, Conwy, LL29 7TG
01492 534091
mail@cvsc.org.uk

Elusen gofrestredig 1151397
Cwmni Cyfyngedig trwy Warant 3867751
Wedi'i gofrestru yng Nghymru

Rhagair y Cadeirydd a'r Prif Swyddog

Adroddiad Effaith Blynyddol 2019/2020

Mae CGGC wedi cael blwyddyn brysur, lwyddiannus a chynhyrchiol arall. Fel y gwelir oddi wrth ein DPA'ion, mae'r Trydydd Sector yng Nghonwy mor weithgar a bywiog ag erioed, ac mae'n bleser enfawr bod tîm CGGC o ymddiriedolwyr, staff a gwirfoddolwyr yn parhau i gefnogi'r holl weithredu gwirfoddol yn y Sir (a thu hwnt). Yr allwedd i'n llwyddiant, yn ein barn ni, yw ymrwymiad ac angerdd tîm CGGC dros eu gwaith a'u cymunedau.

Mae bwrdd ymddiriedolwyr CGGC yn cynnwys detholiad eang o gynrychiolwyr o sefydliadau aelodaeth, gan gynnig gwahanol bersbectif a phrofiad amrywiol a pherthnasol i feithrin a chefnogi staff CGGC. Mae'r staff yn CGGC yn datblygu eu sgiliau a'u harbenigedd yn barhaus, ac maent yn cael eu hannog i gael hyfforddiant anffurfiol ac achrededig i sicrhau bod eu cyfres o sgiliau'n cael ei diweddaru'n gyson, er mwyn cynnig yr wybodaeth a'r cyfarwyddyd diweddaraf i wirfoddolwyr ac i sefydliadau. Mae gwirfoddolwyr CGGC yn cael eu gwerthfawrogi a'u cydnabod am eu cyfraniad a'u hymrwymiad. Yn wir, roedd diwedd y flwyddyn ariannol hon yn dangos yr angen mawr am wirfoddolwyr yn ein cymunedau ni, wrth i realiti ac anferthedd y Pandemig ddechrau taro adref. Ar adeg pan mai cyllid a gwirfoddolwyr oedd y nodwedd bwysicaf, roedd modd i ni ymateb ar unwaith oherwydd ein hyblygrwydd a'n harbenigedd.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau ein Hadroddiad Effaith Blynyddol. Mae'r profiadau gwirfoddoli'n dod â'r pwnc yn fyw yn sicr, ac roedd lansiad ein prosiect newydd 'Car y Llan' yn benllanw misoedd lawer o ymrwymiad a phenderfyniad diwyro gan staff CGGC i sicrhau cyllid a throi'r weledigaeth yn realiti!

Dymuniadau cynhesaf,

Mary & Wendy

Mary Trinder, Cadeirydd
Wendy Jones, Prif Swyddog

Y Pedair Colofn

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

Mae Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW) yn rhwydwaith o sefydliadau cefnogi ar gyfer y Trydydd Sector cyfan yng Nghymru.

Mae'n cynnwys 19 o gyrff cefnogi lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CVCs) a'r corff cefnogi cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA). Felly mae CGGC yn un o'r sefydliadau cefnogi lleol hyn.

Rydyn ni yma yn CGGC yn gweithio gyda dinasyddion, gwirfoddolwyr a grwpiau'r Trydydd Sector er mwyn canfod a rhoi sylw i'r hyn sy'n bwysig iddynt. Mae ein gweithgareddau craidd i gryfhau'r Trydydd Sector a'r ffocws ar Wirfoddoli yn canolbwyntio ar y pedair golofn yma o weithgarwch:

Ymgysylltu a Dylanwadu
Llywodraethu Da
Gwirfoddoli
Cyllid Cynaliadwy

Ymgysylltu a Dylanwadu

Aelodaeth CGGC - 149
Nifer y digwyddiadau a gynhaliwyd - 63
Cyfranogwyr Digwyddiadau a Dysgu - 561
Cyfranogwyr Digwyddiadau Partneriaeth – 296

Astudiaeth achos - GamCare

Mae GamCare yn elusen annibynnol a sylfaenwyd yn 1997 i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i unrhyw un sydd wedi'i effeithio gan gamblo. Mae'n gweithredu'r Llinell Gamblo Genedlaethol, yn darparu triniaeth i gamblwyr problemus a'u teuluoedd, yn creu ymwybyddiaeth o gamblo cyfrifol a thriniaeth, ac yn annog dull effeithiol o weithredu gyda gamblo cyfrifol yn y diwydiant gamblo.

Yn 2019, cafodd GamCare gyllid o'r Gronfa Treth Tamponau i'w alluogi i gyrraedd mwy o ferched agored i niwed sydd wedi'u heffeithio gan broblemau gamblo. Mae'r prosiect yn cynnwys cysylltu â gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector sy'n gweithio gyda merched er mwyn codi ymwybyddiaeth o gamblo a'r niwed cysylltiedig â'i effeithiau.

Un her allweddol i'r sefydliad oedd gwybod gyda phwy i siarad yn y gwahanol feysydd gwasanaeth er mwyn datblygu ymgysylltu. Darparodd CGGC wybodaeth a manylion cyswllt am randdeiliaid allweddol a darpar bartneriaid yn Sir Conwy a manylion cyswllt ar gyfer Cynghorau Gwirfoddol Sirol eraill Gogledd Cymru. Er enghraifft, sefydliadau gwirfoddol, Canolfannau Teuluol, Gwasanaethau Ieuenctid, Hwyluswyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, sefydliadau iechyd meddwl a Grŵp Canlyniadau 5 Conwy (grŵp partneriaeth iechyd meddwl). Cafodd y prosiect ei hybu yn eang yng nghylchlythyr CGGC, ei e-fwletinau, ar ei rwydweithiau a threfnwyd sesiwn hyfforddi ar gyfer grwpiau'r trydydd sector. Gobeithio y bydd hyn yn cael effaith fawr ar ymwybyddiaeth gymunedol drwy gysylltu â'r sefydliadau priodol.

Sector Gwirfoddol CGGC Rhwydwaith Iechyd a Lles

Mae'r Rhwydwaith Iechyd a Lles yn un o'n Rhwydweithiau mwyaf hirsefydlog. I ddechrau roedd dau Rwydwaith, yn bennaf y Rhwydwaith Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a sefydlwyd yn 2003 fel rhan o'r rhaglen Codi Pontydd Cryf (Llywodraeth Cymru) a'r Rhwydwaith Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc a sefydlwyd yn 2004 o dan ddeddfwriaeth y Fframwaith Plant a Phobl Ifanc. Yn 2015, unodd y ddau rwydwaith ac esblygu i fod yn Rhwydwaith Iechyd a Lles.

Yn agored i'r holl randdeiliaid sydd â diddordeb yn yr agenda iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghonwy, mae'r Rhwydwaith yn cefnogi ymgysylltu rhwng y sector gwirfoddol/trydydd sector, cymunedau a'r sector cyhoeddus, ac mae'n gyfrwng i alluogi i lais y sector ddylanwadu ar bolisi, adnabod cyfleoedd i gydweithredu, rhannu arfer da a rhannu gwybodaeth a phrofiad.

Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn chwarterol gyda gwahanol siaradwyr o bob sector gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am eu meysydd gwaith. Mae hyn nid yn unig yn hwyluso ymgysylltu ac adborth ond hefyd yn helpu i adnabod y potensial ar gyfer gweithio ar y cyd er budd dinasyddion Conwy a phwy yw'r gorau i gynrychioli'r sector yn y cyfarfodydd partneriaeth amrywiol. Rhwng y cyfarfodydd hyn, mae gwybodaeth yn cael ei hanfon ymlaen yn electronig yn rheolaidd at y rhai sydd wedi dewis bod ar restr e-ddosbarthu'r Rhwydwaith Iechyd a Lles. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Ann Westmoreland neu Geraint Davies.

Mae'r adborth yn dangos bod pobl yn gweld gwerth mawr yn y digwyddiadau hyn:

"Mae gwybod beth sy'n digwydd bob amser yn ddefnyddiol."
"Da cael diweddariad am y gwasanaethau a'r cysylltiadau."
"Cyfle rhwydweithio rhagorol."
"Mae'r rhain bob amser mor wybodus ac amrywiol. Diolch."
"Cymysgedd dda o wybodaeth leol a rhanbarthol."

Llywodraethu Da

Nifer y gwahanol sefydliadau a gefnogwyd – 395

Mae CGGC yn cefnogi pawb sy'n ymwneud â datblygiad cymunedol, o'r syniad gwreiddiol i weithredu a darparu gwasanaethau drwy ddulliau anffurfiol a ffurfiol. Gall hyn gynnwys cefnogaeth amrywiol drwy bolisïau a gweithdrefnau, fframwaith arfer da ac edrych ar bethau fel cofrestru elusennau, ymgorffori, diogelu a rôl ac effaith Ymddiriedolaeth dda.

Astudiaeth achos – Penbuskers

Sefydlwyd y grŵp er mwyn darparu lleoliad i bobl gyfarfod a chwarae cerddoriaeth gyda'i gilydd a chael hwyl. Cyfarfu'r grŵp i chwarae cerddoriaeth ond wedyn penderfynodd ei fod eisiau gwneud cais am gyllid i brynu offer, felly lluniodd gyfansoddiad sylfaenol i ddod yn grŵp.

Cefnogodd CGGC hwy i fod yn grŵp â chyfansoddiad a hefyd i edrych ar gyfrifon banc priodol. Darparwyd gwybodaeth am gyfleoedd cyllido wedyn, gan ddechrau gyda grant gan Dŵr Cymru a grant sefydlu meicro gan CGGC. Cyflwynwyd templed cyfarfod cyffredinol blynyddol ar gyfer eu cyfarfod cyntaf.

Yn olaf, hwylusodd CGGC fynediad at adnoddau newydd i brynu allweddell newydd a gyfrannwyd gan unigolyn oedd ddim yn ei ddefnyddio mwyach.



Llun trwy garedigrwydd TVConwy

Gwirfoddoli

535 o wirfoddolwyr wedi cofrestru ar wefan Gwirfoddoli Cymru www.volunteering-wales.net

225 o wirfoddolwyr wedi cofrestru ar gyfer cyfle Gwirfoddoli COVID 19 CGGC yn ystod yr wythnos gyntaf!

167 o gyfleoedd gwirfoddoli gwahanol agored a gweithredol ar gael yn ardal Conwy

419 o wirfoddolwyr wedi'u cefnogi ar eu siwrnai wirfoddoli

Astudiaeth achos - Steve Pugh

Daeth Steve at CGGC i ddechrau gan ei fod yn cyflwyno hyfforddiant gwasanaethau cwsmeriaid i wirfoddolwyr mewn grwpiau cymunedol mewn rôl wirfoddol.

Roedd wir eisiau newid gyrfa ar ôl 12 mlynedd yn rheoli ym maes adwerthu ac roedd eisiau cymryd mwy o ran mewn hyfforddi a datblygu hyn ymhellach.

"Fe wnaeth gwirfoddoli gyda CGGC roi hyder i mi i wneud y newid yma a hefyd gwneud i mi gredu y byddwn i'n gallu ei wneud."

Pan ddechreuodd wirfoddoli gyda CGGC, gwirfoddolodd Steve gyda nifer o sefydliadau, ac un o'r rhain oedd Crest. Ar ôl gweld beth oedd yn gallu ei wneud, cynigiodd Crest swydd iddo gyda'r sefydliad. Bellach mae Steve yn hyfforddwr PTTLS achrededig sy'n gweithio'n llawn amser i Crest a hefyd mae yng ngofal yr adran adwerthu. Dechreuodd hyn i gyd drwy wirfoddoli gyda CGGC.

"Drwy gymryd y cam yma ar fy llwybr gyrfaol, mae fy nghydbwysedd bywyd a gwaith i'n filiwn gwaith gwell nag erioed o'r blaen. Rydw i'n cael gweld mwy nag erioed ar fy ngwraig a dydw i erioed wedi bod yn hapusach yn fy ngyrfa. Mae CGGC wedi rhoi cyfle i mi ddatblygu fy sgiliau ac wedi rhoi hyder a chefnogaeth i mi i ddilyn llwybr gyrfa newydd. Gyda help y tîm yn CGGC, fe wnaethon nhw fy rhoi i mewn cysylltiad â sefydliadau y gallwn i wirfoddoli gyda nhw – ac mae un nawr wedi fy nghyflogi i ar lefel uwch. I mi, roedd yn Freuddwydio, Credu, Cyflawni.

"Fe wnes i feiddio breuddwydio am newid gyrfa. Roedd CGGC tu cefn i mi yn credu yn fy ngallu. Nawr rydw i mewn gyrfa newydd. Edrychwch beth rydw i wedi'i gyflawni!"

Astudiaeth Achos - Car y Llan

Mae cynllun car cymunedol "Car-y-Llan" yn cael ei gyflwyno gan CGGC mewn cydweithrediad â Chlwstwr Gorllewin Conwy a meddygfeydd Betws y Coed a Cherrig-y-Drudion, a chafodd ei ddatblygu cyn y Covid i gludo cleifion bregus sy'n byw mewn cymunedau gwledig, ynysig i'w hapwyntiadau iechyd. Roedd y lansiad ar 21/10/19 ac mae'n cael ei gyllido gan Sefydliad Steve Morgan a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Pan ddaeth Covid-19, gohiriwyd yr elfen cludo cleifion a chefnogwyd meddygfeyd wrth ddosbarthu presgriptiynau.

Cyllid Cynaliadwy

Y Cyllid Cyffredinol a ddyfarnwyd ac a ddosbarthwyd gan CGGC - **£949,699.86**

Cyllid a sicrhawyd gan sefydliadau drwy gefnogaeth gan CGGC a'n cynlluniau grant - **£303,086**

Ystadegau Adroddiad Blynyddol Gwastadeddau'r Rhyl

Ebrill 2019 – Mawrth 2020

Nifer y Dyfarniadau a Wnaed:.....18
Cyfanswm Gwerth y Dyfarniadau:.....£103,518.16
Cyllid cyfatebol a ddenwyd:.....£338,987.18
Buddiolwyr posib:.....21,840
Swyddi a grëwyd:.....7
Cyfleoedd gwirfoddoli:.....47
Gwerth mewn nwyddau neu gynnyrch:.....£1,003

Ystadegau Adroddiad Blynyddol Cronfa Gymunedol Gwynt y Môr

Ebrill 2019 – Mawrth 2020

Nifer y Dyfarniadau a Wnaed:.....68
Cyfanswm Gwerth y Dyfarniadau:.....£565,439.00
Cyllid cyfatebol a ddenwyd:.....£367,273.00
Buddiolwyr posib:.....77,386
Swyddi a grëwyd:.....12.5
Swyddi a ddiogelwyd:.....150
Cyfleoedd gwirfoddoli a ddiogelwyd / grëwyd:.....1,236
Nifer yr elusennau a gefnogwyd:.....26
Nifer y mentrau cymdeithasol a gefnogwyd:.....12
Nifer yr ymwelwyr ychwanegol a ddenwyd i'r ardal:.....189,000
Amcangyfrif o'r refeniw ychwanegol i'r economi leol:.....£2.05M

Grantiau Dan Arweiniad Ieuenctid

Dyfarniadau a Wnaed:.....6
Cyfanswm y Grantiau a Ddyfarnwyd:.....£5,000
Cyfleoedd gwirfoddoli a grëwyd:.....60
Buddiolwyr posib:.....150

Astudiaeth achos - Clwb Gymnasteg Grays

Ffurfiwyd Clwb Gymnasteg Grays yn 1985 gan Helen Rushton, Uwch Hyfforddwr y clwb. Am gyfnod rhy hir, fe fu'r 500 o aelodau yn Grays, y 2 hyfforddwr llawn amser, y 21 o hyfforddwyr rhan amser a'r 5 gwirfoddolwr / cynorthwy-ydd yn byw bywyd crwydrol. Yn hyfforddi mewn lleoliadau ar hyd arfordir Gogledd Cymru, gan gynnwys Canolfannau Hamdden y Rhyl, Prestatyn, John Bright's a Chyffordd Llandudno, roedd bywyd yn heriol i'r staff, y gymnastwyr a'r rhieni brwd. Felly, pan ddaeth cyfle i sicrhau prydles tymor hir ar eiddo masnachol, er mwyn adnewyddu a thrawsnewid yr adeilad yn Ganolfan Gymnasteg gwbl fodern, gofynnodd y clwb i Gronfeydd Cymunedol Gwynt y Môr a Gwastadeddau'r Rhyl am gymorth.



18 mis yn ddiweddarach, mae'r hen warws, y gweithdy a'r storfa wedi mynd. Yn eu lle mae cyfleuster hyfforddi modern a phwrpasol. Ryw 5 munud oddi ar yr A55 y tu allan i Fae Colwyn, mae gan Grays ei gartref ei hun nawr a lleoliad hyfforddi hyfforddwyr. Mae gan y clwb yma gyda gymnastwyr talentog o Ogledd Cymru ganolfan ond hefyd mae'r 350 o athletwyr ifanc ar restr aros y clwb wedi lleihau'n sylweddol. Mae cyfraniad o £9,000.00 o gronfa Gwynt y Môr a hefyd grant o £5,800 o gronfa Gwastadeddau'r Rhyl tuag at gostau adnewyddu wedi chwarae rhan sylweddol yn y datblygiad hwn. "Yn naturiol, rydym i gyd wrth ein bodd gyda'r canlyniad!"

Crynodeb Ariannol 2019/2020



Incwm	£	%
Cyllid Craidd CGGC	155,567.00	10.04%
Awdurdod Lleol	200,268.42	12.93%
Llywodraeth Cymru	73,411.09	4.74%
Loteri	48,644.20	3.14%
BIPBC	38,885.00	2.51%
Arall	1,032,438.71	66.64%
Cyfanswm	**1,549,214.42**	**100.00%**



Gwariant	£	%
Staff a Chostau Cysylltiedig	503,420.71	32.73%
Eiddo	7,565.61	0.49%
Grantiau	957,833.05	62.27%
Costau Swyddfa a TG	63,074.81	4.10%
Yswiriant, Archwilio a Chyfrifyddia	6,347.72	0.41%
Cyfanswm	**1,538,241.90**	**100.00%**